**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Cynllunio

**Siambr y Cyngor, Neuadd y Ddinas, Abertawe**

**Dydd Mawrth, 1 Mawrth 2022 am 2.00 pm**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd P Lloyd (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| C Anderson | P M Black | P Downing |
| W Evans | R D Lewis | D W W Thomas |
| T M White | | |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Gareth Borsden | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd |
| Ian Davies | Rheolwr Datblygu |
| Sally-Ann Evans | cyfreithiwr arweiniol |
| Andrew Ferguson | Arweinydd Tîm Ardal |
| Amanda Pugh | Uwch-beiriannydd |
| Jonathan Wills | cyfreithiwr arweiniol |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wyr): M H Jones, M B Lewis, P B Smith a/ac L J Tyler-Lloyd

---

## 61 Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

## 62 Cofnodion.

**Penderfynwyd** cymeradwyo a llofnodi cofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 1 Chwefror 2022 fel cofnod cywir.

## 63 Eitemau i'w gohirio/tynnu'n ôl.

Adroddodd y Rheolwr Datblygu nad arddangoswyd hysbysiadau safle priodol mewn perthynas ag Eitem 1 (2020/0434/FUL) ac argymhellwyd bod y pwyllgor yn gohirio'r mater er mwyn i'r cyhoedd gael y cyfle i fod yn bresennol a chyflwyno'u barn am y cais.

**Penderfynwyd** gohirio'r cais isod er mwyn caniatáu i'r hysbysiadau safle priodol gael eu harddangos.

**(Eitem 1) - Cais Cynllunio 2020/0434/FUL - Adeiladu 9 annedd newydd gyda mynediad, garejys, parcio a mannau agored cysylltiedig, addasu The Poplars**

**yn 2 uned breswyl, addasu adeilad stabl yn 1 uned breswyl, dymchwel adeilad porthdy a gwaith cysylltiedig yn The Poplars, Pontlliw, Abertawe**

## 64 Penderfynu ar geisiadau cynllunio o dan Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990.

Cyflwynwyd cais cynllunio ar ran Pennaeth Cynllunio ac Adfywio'r Ddinas.

**Penderfynwyd cymeradwyo**'r cais cynllunio y cyfeirir ato isod am y rhesymau a nodwyd yn yr adroddiad.

**(Eitem 2) - Cais Cynllunio 2021/2822/RES - cynnig i roi terfyn ar dirlenwi a gweithrediadau eraill, gan alluogi datblygiad preswyl o oddeutu 300 annedd, man cyhoeddus agored, a gwaith priffordd ac ategol arall (Cais materion a gadwyd yn ôl ar gyfer diwygiadau i leiniau 139, 144-151, 154 a 156-158. Darparu anheddau ar leiniau 152 a 153 a diwygio'r pen troi o fewn cam 3 gan gynnwys manylion mynediad o fewn ac o amgylch y datblygiad, golwg, cynllun, gmaint a thirlunio yn unol â chaniatâd cynllunio amlinellol 2014/0977 a roddwyd ar apêl ar 11 Ionawr 2018 ac a amrywiwyd gan 2020/2068/S73 a roddwyd ar 1 Medi 2021) yn Cwmrhydyceirw Quarry Co Ltd, Teras Great Western Terrace, Cwmrhydyceirw, Abertawe.**

Rhoddwyd cyflwyniad gweledol.

Daeth y cyfarfod I ben am 2.14 pm

**Cadeirydd**